

Adroddiad blynyddol / Annual Report - Cyngor Cymuned Llanddona Community Council 31/03/2026

Adroddiad Blynyddol 2025-26

Aelodaeth a Chyfarfodydd y Cyngor:

Mae'r Cyngor yn cynrychioli ward Llanddona a ward Llaniestyn, gyda 6 sedd ar gyfer Llanddona a 3 ar gyfer Llaniestyn. Yn ystod y flwyddyn, roedd gan y Cyngor gyfanswm o 8 aelod.

Cynhaliwyd cyfanswm o 13 cyfarfod Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Cyllid

Yn ystod y flwyddyn ariannol, derbyniodd y Cyngor incwm o gyfanswm o £10,147 a chofnodwyd gwariant o £10,981. Y balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2026 oedd £16,557.

Prif Weithgareddau a Phenderfyniadau:

Mae'r Cyngor Cymuned yn cydweithio â Grŵp Natur Seiriol i reoli a chynnal a chadw tir comin y pentref.

Ebrill 2025

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y gymuned ynghylch diogelwch, trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o osod golau stryd ychwanegol ar hyd Lôn Glandŵr gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, oherwydd y gost sylweddol sy'n gysylltiedig, mae'r cynnig wedi'i ohirio tra bo cyllid grant addas ar gael.

Mai 2025

Ymgysylltodd yr aelodau â Chyngor Sir Ynys Môn i archwilio a nodi safle addas ar gyfer tai fforddiadwy yn y pentref.

Mehefin 2025

Adnewyddwyd y ddwy fainc yn y pentref.

Mynegwyd pryder i'r adran Briffyrdd ynghylch cyflwr ffordd Hafoty

Gorffennaf 2025

Gweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar gynllun arfaethedig ynghylch parcio a chyflwr ardal y traeth.

Awst 2025

Trefnwyd gwaith cynnal a chadw mewn ymateb am gyflwr llwybrau cyhoeddus.

Gweithio gyda'r preswylwyr ar ôl pryderon am barcio ar dir cyffredin.

Medi 2025

Gweithiodd gyda Grŵp Natur Seiriol ynghylch gwaith ar Dir Comin Rhos a

gofynnwyd am waith ar y darnau o dir comin o amgylch y pentref.

Trafodwyd y cais gan bwyllgor yr Eglwys i dalu am gynnal a chadw'r Eglwys ar gyfer 2026/27

Hydref 2025

Mae'r bwrdd Hysbysiadau Cymunedol newydd wedi'i godi wrth y lloches bysiau.

Mynegwyd pryderon eto i'r adran Briffyrdd ynghylch cyflwr ffordd Hafoty. Trefnu torri'r coed a nodwyd fel rhai risg o ganlyniad yr arolwg coed gan y Cyngor Sir

Tachwedd 2025

Yn aros am ganlyniad ein Cynghorwyr Sir ar y cais am gyllid tuag at y prosiect traeth.

Cytunodd yr aelodau i gefnogi'r cais gan y Cyngor Sir i gofrestru'r llwybr troed cyhoeddus yn Eglwys Sant Iestyn, Llaniestyn.

Rhagfyr 2025

Yn bryderus ynghylch effaith lefelau staffio yn yr orsaf dân leol. Mae Grŵp Natur Seiriol wedi cynnal gwaith pellach ar y tir comin yn y pentref.

Ionawr 2026

Nodwyd y bydd ffordd Hafoty yn cael ei hystyried ar gyfer ailwynebu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Trefnir cyfarfod i drafod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MCC) ar gyfer tir comin y Rhos.

Ar ôl ystyried y gwariant arfaethedig yn ofalus, cytunodd yr aelodau i gynyddu'r praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27

Esboniodd y Clerc ganlyniad Archwiliad 2024/25

Chwefror 2026

Holi am y sied sydd wedi ymddangos ger llwybr yr arfordir wrth Wern y Wylan.

Yn gweithio gyda Grŵp Natur Seiriol i dorri'r eithin ar dir comin.

Mawrth 2026

Trafodwyd yr ymchwiliad drafft diweddar i'r llwybr cyhoeddus ger Eglwys Sant Iestyn.

Anfonwyd y gŵyn a dderbyniwyd ynghylch y traeth ymlaen at yr Adran

Amgylcheddol.

Mae'r ffordd ger Bryn Bella wedi'i hailwynebu.

Annual Report 2024–2025

Council Membership and Meetings

The Council represents the Llanddona ward and Llaniestyn ward, with Llanddona having 6 seats and Llaniestyn having 3 seats. During the year, the Council had a complement of 8 members.

A total of 13 Council meetings were held during the year.

Finance

During the financial year, the Council received income totalling £10,147 and recorded expenditure of £10,981. The balance carried forward as at 31 March 2026 was £16,557.

Key Activities and Decisions:

The Community Council collaborates with the Seiriol Nature Group in the management and maintenance of the village's common land.

April 2025

In response to concerns raised by the community about safety, members discussed the possibility of installing an additional street light along Lôn Glandwr with IOACC. However, due to the significant cost involved, the proposal has been deferred pending the availability of suitable grant funding

May 2025

Members engaged with IOACC to explore and identify a suitable site for affordable housing within the village.

June 2025

Refurbished the two benches in the village.

Raised concern to the Highways department regarding the condition of Hafoty road.

July 2025

Working with IOACC on a proposed plan regarding the parking and condition of the beach area

August 2025

Arranged maintenance work in response to complaints about the condition of public footpaths.

Working with residents following concerns about parking on common land.

September 2024

Worked with the Seiriol Nature Group regarding work on the Rhos Common and requested work on the parcels of common land around the village.

Discussed the request by the Church committee to pay for the Church maintenance for 2026/27.

October 2024

The new Community Notice board has been erected by the bus shelter.

Raised concerns again to the Highways department about the condition of Hafoty road. Arranged the cutting of the trees identified as risk from the tree survey outcome by the County Council

November 2025

Awaiting the outcome from our County Councillors from the request for funding towards the beach project.

Members agreed to support the application from the County Council to register the public footpath at St Iestyn Church, Llaniestyn.

December 2025

Concerned of the effect of the staffing levels at the local fire station. Seiriol Nature Group have carried out further work on the common land within the village.

January 2026

It was noted that Hafoty Road is to be considered for resurfacing during the next financial year.

A meeting will be arranged to discuss the Memorandum of Understanding (MoU) for Rhos Common.

Following careful consideration of the proposed expenditure, members agreed to increase the precept for the 2026/27 financial year.

The Clerk explained the outcome of the 2024/25 Audit

February 2026

Enquired about the shed that has appeared near the coastal footpath by Wern y Wylan.

Working with Seiriol Nature Group to cut the gorse on common land.

March 2026

Discussed the recent draft investigation to the public footpath by St Iestyn Church.

Forwarded the complaint received regarding the beach to the Environmental Department.

The road by Bryn Bella has been resurfaced.